O F F E R Y N N A U  S T A T U D O L
C Y M R U

# 2019 Rhif 1500 (Cy. 276)

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

## Gorchymyn Cefnffordd yr A55 (Cyffordd 2 (Cyfnewidfa Tŷ Mawr), Caergybi, Ynys Môn i Gyffordd 11 (Cyfnewidfa Llys y Gwynt), Bangor, Gwynedd) (Gwahardd Cerbydau, Beicwyr a Cherddwyr Dros Dro) 2019

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *13 Rhagfyr 2019* |
| *Yn dod i rym* | *18 Rhagfyr 2019* |

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darnau perthnasol o Gefnffordd yr A55, wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig ar ddarnau penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y ffordd neu gerllaw iddi.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 14(1), (4) a (7) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(**1**), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

**Enwi, Cychwyn a Dehongli**

**1.** Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A55 (Cyffordd 2 (Cyfnewidfa Tŷ Mawr), Caergybi, Ynys Môn i Gyffordd 11 (Cyfnewidfa Llys y Gwynt), Bangor, Gwynedd) (Gwahardd Cerbydau, Beicwyr a Cherddwyr Dros Dro) 2019 a daw i rym ar 18 Rhagfyr 2019.

**2.** Yn y Gorchymyn hwn:

---

(**1**) 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p. 26), ac Atodlen 1 iddi. Yn rhinwedd O.S. 1999/672 ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32), a pharagraff 30(1) o Atodlen 11 iddi, mae'r pwerau hyn wedi eu rhoi bellach i Weinidogion Cymru o ran Cymru.

ystyr "y gefnffordd" ("*the trunk road*") yw Cefnffordd yr A55 Llundain i Gaergybi a Chefnffordd yr A55 Caer i Fangor;

ystyr "cerbyd esempt" ("*exempted vehicle*") yw unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio gan y gwasanaethau brys neu mewn cysylltiad â'r gwaith sy'n arwain at y Gorchymyn hwn;

ystyr "cyfnod y gwaith" ("*works period*") yw cyfnodau ysbeidiol sy'n dechrau am 10:00 o'r gloch ar 18 Rhagfyr 2019 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro ar gyfer pob cyfnod gwaith eu symud ymaith yn barhaol.

### Gwaharddiadau

**3.** Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn.

**4.** Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, reidio unrhyw feic pedal, ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn.

**5.** Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, gerdded ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn.

### Cymhwyso

**6.** Ni fydd y gwaharddiadau yn erthyglau 3, 4 a 5 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn eu dangos.

### Atal Dros Dro

**7.** Mae darpariaethau Gorchymyn Cefnffordd yr A55 (Cilfannau rhwng Cyffordd 2 (Bae Trearddur) a Chyffordd 8 (Llanfair Pwllgwyngyll), Ynys Môn) (Cyfyngu ar Aros) 2016(**2**) wedi eu hatal dros dro yn ystod yr adegau hynny pan fo'r gwaharddiadau yn erthyglau 3, 4 a 5 yn gymwys.

### Cyfnod Para'r Gorchymyn hwn

**8.** Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod Gweinidog yr Economi a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 13 Rhagfyr 2019

*Richard Morgan*
Pennaeth Cynllunio, Rheoli Asedau a Safonau
Llywodraeth Cymru

---

(**2**) O.S. 2016/256 (Cy. 90)

**YR ATODLEN**

Y darnau o ffyrdd ymuno ac ymadael tua'r dwyrain a thua'r gorllewin y gefnffordd wrth Gyffordd 2 (Cyfnewidfa Tŷ Mawr), Cyffordd 3 (Cyfnewidfa Pencaledog), Cyffordd 4 (Cyfnewidfa Dalar), Cyffordd 5 (Cyfnewidfa yr A4080/Treban), Cyffordd 6 (Cyfnewidfa Tyrpeg Nant), Cyffordd 7 (Cyfnewidfa Cefn Du), Cyffordd 8 (Cyfnewidfa Ael-y-Bowl), Cyffordd 9 (Cyfnewidfa Treborth) a Chyffordd 10 (Cyfnewidfa Ffordd Caernarfon).

Y darnau o'r ffordd ymadael tua'r gorllewin wrth Gyffordd 7A (Cyffordd Gorllewin Llanfairpwll), y ffordd ymuno tua'r dwyrain a'r ffordd ymadael tua'r gorllewin wrth Gyffordd 8A (Cyffordd yr A5/Pont Britannia) a'r ffordd ymadael tua'r dwyrain a'r ffordd ymuno tua'r gorllewin wrth Gyffordd 11 (Cyfnewidfa Llys y Gwynt).

Y darnau o gilfannau'r gefnffordd rhwng Cyffordd 2 (Cyfnewidfa Tŷ Mawr) a Chyffordd 11 (Cyfnewidfa Llys y Gwynt).